

Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

Busnesau Cymreig

Geirfa

arfbais (arfbeisiau) cragen las (cregyn gleision) gwinllan(nau) gwinwydden (gwinwydd) perllan(nau) wystrysen (wystrys)	<i>coat(s) of arms</i> <i>mussel(s)</i> <i>vineyard(s)</i> <i>vine(s)</i> <i>orchard(s)</i> <i>oyster(s)</i>	beudy (beudai/bydái) cimwch (cimychiaid) cyfarwyddwr (-wyr) cynaeafwr (-wyr) cynhwysyn (cynhwysion) cynnyrch (cynhyrchion) gwactod(au) gwlan(oedd) heli patrwm (patrymau) pennill (penillion) perchennog (perchnogion)	<i>cowshed(s)</i> <i>lobster(s)</i> <i>director(s)</i> <i>harvester(s)</i> <i>ingredient(s)</i> <i>produce</i> <i>vacuum(s)</i> <i>wool(s)</i> <i>brine/seawater</i> <i>pattern(s)</i> <i>verse(s)</i> <i>owner(s)</i>
cyfanwerthu ffynnu tewychu	<i>to sell wholesale</i> <i>to thrive/to flourish</i> <i>to thicken/</i> <i>to concentrate</i>	cynhenid dedwydd llonydd pefriog rhosliw tymhorol	<i>native</i> <i>happy/contented</i> <i>still</i> <i>sparkling</i> <i>rosé</i> <i>seasonal</i>
dŵr croyw	<i>fresh water</i>	tro ar fyd	<i>change in</i> <i>circumstances</i>

Cyflwyniad


Mae llawer o fusnesau bach sy'n cynhyrchu pethau yng Nghymru yn defnyddio'r Gymraeg wrth farchnata eu cynnyrch neu yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Yn yr uned hon, byddwch chi'n cael cyflwyniad i ambell un o'r busnesau hyn a'r bobl sy'n gyfrifol amdany'n nhw ac yn trafod pa gynnyrch Cymreig dych chi'n eu prynu.

Gwyllo a Gwranddo – Eifion Griffiths, Melin Tregwynt

Mae Eifion Griffiths yn un o Gyfarwyddwyr Melin Tregwynt – melin wlan sydd wedi'i lleoli ger arfordir Sir Benfro rhwng Abergwaun a Thyddewi. Byddwch chi'n gweld clip fideo ble mae Eifion Griffiths yn siarad am y busnes.



1. Mae Eifion yn siarad yn nhafodiaith Sir Benfro. Cyn gwyllo'r clip, edrychwch ar y geiriau canlynol sy'n rhan o'r dafodiaith honno. Dych chi'n deall y geiriau hyn? Beth sy'n cael ei ddefnyddio yn eich ardal chi?



Wrth i chi wyllo'r clip am y tro cyntaf, gwrandewch am y geiriau uchod.

2. Rhestrwch gymaint o'r lleoedd y mae Eifion yn eu henwi ag y gallwch yn y tabl isod:

Tref yn Sir Benfro:	
Gwlad yn hemisffer y de:	
Gwlad arall yn hemisffer y de:	
Y wlad hon	
Gwlad fawr yng Ngogledd America	
Y cyfandir hwn	
Gwlad o ynysoedd yn y Dwyrain Pell	
Gwlad fwyaf poblog y byd	

Ar ôl i chi wyllo'r clip eto, trafodwch pam mae Eifion yn enwi'r lleoedd hyn.

Wedi gwyllo'r fideo unwaith eto, trafodwch y cwestiynau canlynol gyda'ch partner:

3. Pa ddau newid mawr ddigwyddodd i'r felin yn 1912?

4. Faint o bobl leol sy'n gweithio ym Melin Tregwynt?

5. Defnydd gyda pha fath o batrymau sy'n gwerthu orau ar hyn o bryd?

Siaradwch

- Oes gennych chi unrhyw gynnyrch Cymreig yn eich cartref chi? Ydych chi'n prynu cynnyrch Cymreig fel anrhegion?
- Dwedodd Eifion fod pobl yn **lico gwybod** o ble mae rhywbeth wedi dod. Beth dych chi'n hoffi ei wybod am ddillad neu nwyddau i'r tŷ cyn i chi eu prynu nhw?
- Dwedodd Eifion hefyd fod hen batrymau **wedi dŵad nôl yn boblogaidd**. Oes gennych chi unrhyw beth hen ffasiwn sydd wedi dod nôl yn boblogaidd? Dych chi'n dilyn ffasiwn neu'n cadw at yr un steil er bod y ffasiwn yn newid?

Caru Canu

Mae patrymau Melin Tregwynt i'w gweld yn y cefndir yng nghyfres S4C – *Caru Canu*. Cyfres o fideos wedi'u hanimeiddio sy'n cyflwyno caneuon Cymraeg i blant ydy *Caru Canu*.

Edrychwch ar drydedd bennod *Caru Canu* sy'n cyflwyno'r gân *Un a Dwy a Thair* ar [S4C Clic](#). Ar ôl i chi wyllo, ceisiwch gofio a chanu'r pedwar pennill i'r gân sydd ar y rhaglen.



Wedyn, ffurfiwch benillion newydd i'r gân i gyfri'r canlynol (cofiwch y bydd angen i chi ddewis ansoddair addas ar gyfer diwedd y pennill):

gwartheg	teirw	defaid	caeau
drysau	pysgod	tatws	ffrwythau

Darllen – Halen Môn

Mae'r darn darllen sy'n dilyn yn rhan o sgwrs gydag **Alison Lea-Wilson** o wefan Wales.com. Alison a'i gŵr David sefydlodd fusnes Halen Môn.

1. Cyn darllen y sgwrs, gweithiwch gyda phartner i gysylltu'r geiriau a'r ymadroddion isod gyda'r diffiniadau cywir:

cyfanwerthu

tymhorol

tewychu

dŵr croyw

cynhwysion

heli

cynaeafwr

llanw

ôl-troed carbon

dŵr ffres heb halen ynddo

dŵr y môr yn codi ac yn gostwng

gwneud rhywbeth yn fwy trwchus neu dynnu dŵr allan ohono

yn newid llawer ar adegau gwahanol o'r flwyddyn

ffordd o fesur eich effaith ar yr amgylchedd

dŵr hallt / dŵr y môr

gwerthu nwyddau i fusnesau eraill fydd yn eu gwerthu i'r cyhoedd

rhywun sy'n casglu cnwd pan mae'n barod

elfennau gwahanol sy'n mynd i mewn i rysâit neu bryd bwyd

Gwneud Halen ym Môn

Beth ddenodd chi i Gymru?

Fe ddois i i Brifysgol Bangor gyda fy nghariad ar y pryd – fy ngŵr bellach – David, ddeugain mlynedd yn ôl. Fe wnaethon ni ychwanegu at ein hincwm fel myfyrwyr drwy dyfu wystrys a chregyn gleision, a datblygodd hynny'n fusnes **cyfanwerthu** bwyd môr. Byddai pobl yn arfer prynu cimychiaid byw oddi wrthym, ac roedd diddordeb ganddyn nhw mewn edrych arnyn nhw yn y tanciau, felly fe sefydlon ni acwariwm a drodd yn ei dro'n Sw Môr Môn. Fe wnaethon ni hynny'n ddigon dedwydd am 15 mlynedd.

Sut dechreuodd y gwaith o wneud halen?

Mae'r busnes ymwelwyr yn **dymhorol** iawn. Roedden ni'n gwneud yn dda iawn dros fisoedd yr haf, ond roedden ni eisiau parhau i gyflogi'r staff dros y gaeaf. Felly fe ddechreuon ni edrych am bethau eraill i'w gwneud gyda dŵr y môr, ac fe feddylion ni am halen o'r môr. Yn 2007 fe werthon ni'r sw i ganolbwyntio ar halen, ac yn 2015 fe adeiladon ni ein ffatri halen newydd a'r ganolfan ymwelwyr.

Pam mae Afon Menai gystal ar gyfer gwneud halen?

Mae'n lân iawn. Does dim diwydiant trwm na llongau mawr yma. Ac mae gennym ni **lanw** grymus iawn sy'n golchi drwodd ddwywaith y dydd, felly mae 'na ddŵr glân i dynnu arno bob amser.

Sut byddwch chi'n troi'r dŵr yn halen?

Byddwn ni'n pwmpio'r dŵr i mewn i'n hystafell beiriannau ac mae'n cael ei **dewychu** drwy'i gynhesu mewn gwactod. Yna rydym ni'n rhoi'r **heli** mewn tanciau crisialu ac mae rhagor o'r **dŵr croyw**'n cael ei yrru allan ar ffurf ager. Pan fydd yr heli'n mynd mor gryf nad yw'n gallu dal rhagor o halen, mae'r halen yn dechrau troi'n grisialau. Bob bore bydd y **cynaeafwyr** halen yn dod i mewn ac yn codi'r crisialau allan, yn eu golchi, eu sychu a'u pacio, felly mae popeth yn cael ei wneud â llaw. Mae'r rhan fwyaf o'n staff ni'n bobl leol sy'n siarad Cymraeg; rydym ni'n gweld ein hunain fel rhan o'r gymuned. Rydym ni'n prynu'n lleol gymaint ag y gallwn ni, i dorri'n ôl ar ein **hól troed carbon**.

Ble rydych chi'n gwerthu eich halen?

Mae'n cael ei ddefnyddio ledled y byd. Rydyn ni'n gwerthu i'r Undeb Ewropeaidd, Gogledd America, Awstralia, Japan, y Dwyrain Canol – ble bynnag y bydd pobl yn gwerthfawrogi **cynhwysion** da. Rydym ni'n gweithio gyda chogyddion enwog fel Heston Blumenthal a Gordon Ramsay, a bwytai lleol fel Marram Grass a Dylan's hefyd. Ein cigydd lleol ym Mhorthaethwy oedd ein cwsmer cyntaf, ac mae'n dal yn gwsmer, sy'n hyfryd.

Hawlfraint y Goron © Wales.com



2. Beth yw arwyddocâd y creaduriaid a'r bobl ganlynol yn hanes busnesau Alison a David?

wystrys a chregyn gleision	
cimychiaid	
twristiaid/ymwelwyr	
pobl leol sy'n siarad Cymraeg	
Heston Blumenthal a Gordon Ramsay	
cigydd Porthaethwy	

3. Llenwch y bylchau yn y brawddegau canlynol (heb edrych yn ôl ar y darn!)

- Fe wnaethon ni _____ ein hincwm fel myfyrwyr _____ dyfu wystrys a chregyn gleision.
- Roedden ni'n gwneud yn dda iawn _____ haf, ond roedden ni eisiau _____ gyflogi'r staff dros y gaeaf.
- Mae gennym ni _____ grymus iawn sy'n golchi drwodd _____ dydd.
- Mae popeth yn _____ â llaw.
- Rydym ni'n prynu'n lleol _____ ni.

4. Ystyriwch yr ymadrodd **Rydym ni'n prynu'n lleol gymaint ag y gallwn ni** eto. Meddyliwch am bethau eraill y gallech chi eu dweud yn lle "prynu'n lleol" mewn gwahanol gyd-destunau:

Dyn ni/Dan ni'n... .. gymaint ag y gallwn ni.
 neu Dw i'n... ..gymaint ag y galla i.

Dewch o hyd i ddau ymadrodd arall yn y darn y gallwch chi eu defnyddio i siarad am bethau gwahanol.

5. Gyda'ch partner, ceisiwch ail-greu'r sgwrs – un partner i ofyn y cwestiynau a'r llall i geisio rhoi'r atebion roddodd Alison Lea-Wilson. Peidiwch â phoeni am gael yr atebion i gyd yn yr un geiriau yn union, ond ceisiwch roi'r un wybodaeth.

Dyma'r cwestiynau i chi eto:

- Beth ddenodd chi i Gymru?**
- Sut dechreuodd y gwaith o wneud halen?**
- Pam mae Afon Menai gystal ar gyfer gwneud halen?**
- Sut byddwch chi'n troi'r dŵr yn halen?**
- Ble rydych chi'n gwerthu eich halen?**

Gwrando – Richard Huws, Pant Du

Richard Huws ydy un o berchnogion busnes gwinllan a pherllan Pant Du yn Nyffryn Nantlle, Gwynedd. Byddwch chi'n clywed rhan o sgwrs Richard gyda Beti George o raglen Beti a'i Phobol BBC Radio Cymru.



Cyn gwrando, ceisiwch lenwi'r grid canlynol gyda'r geiriau cywir sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwin a seidr:

Y ddiod	Gwin	Seidr
Y ffrwythau sy'n cael eu defnyddio i wneud y ddiod fel arfer		
Y planhigyn y mae'r ffrwythau yn tyfu arno (unigol)		
Yr enw lluosog ar gyfer y planhigion hyn		
Y darn o dir lle mae'r planhigion yn tyfu (unigol)		
Yr enw lluosog ar gyfer y darnau hyn o dir		

- Wrth wrando ar ran gyntaf y sgwrs am y tro cyntaf, gwrandewch am yr enwau lleoedd canlynol gan roi ✓ pan fyddwch chi'n eu clywed (bydd rhai o'r enwau i'w clywed fwy nag unwaith, felly gallwch roi mwy nag un ✓):

	✓
Y Gogledd	
Y De	
Tal-y-sarn	
Pen-y-Groes	
Pant Du	
Llanllyfni	
Clynnog	
Seland Newydd	

2. Wrth gyflwyno Richard, mae Beti George yn dweud “**Daeth sawl tro ar fyd i’w ran**”. Dych chi’n deall ystyr yr ymadrodd hwn? Rhowch y ffurfiau cywir ar yr ymadrodd **Daeth tro ar fyd i’w ran** yn y blychau isod:

Daeth tro ar fyd i ____ _____ i

Daeth tro ar fyd i ____ _____ di

Daeth tro ar fyd i ____ _____ hi

Daeth tro ar fyd i ____ _____ ni

Daeth tro ar fyd i ____ _____ chi

Daeth tro ar fyd i ____ _____ nhw

3. Wedi gwranddo ar y darn eto, trafodwch gyda’ch partner pa dri tro ar fyd a ddaeth i ran Richard y mae Beti’n sôn amdanynt?

Wedyn, trafodwch unrhyw dro ar fyd sydd wedi dod i’ch rhan chi.

4. Mae Beti hefyd yn dweud bod “**y busnes yn ffynnu**”. Dych chi’n deall ystyr y gair **ffynnu**? Meddyliwch am ddau beth arall y gallwch chi ddweud eu bod yn ffynnu ar hyn o bryd?

Wedi gwranddo ar y darn unwaith eto, trafodwch y cwestiynau canlynol gyda’ch partner:

5. Edrychwch eto ar enwau’r pentrefi sydd yn y tabl yng nghwestiwn 1. uchod. Pa un o’r pentrefi hyn oedd ddim yn bodoli pan gafodd ffarm Pant Du ei hadeiladu?

6. Pam mae lleoliad Pant Du yn arbennig o addas ar gyfer Richard a’i wraig?

7. Pam mae’r daith i Seland Newydd yn bwysig yn hanes y busnes?

8. Sut mae'r adeiladau canlynol ym Mhant Du yn cael eu defnyddio erbyn hyn:

- a) Yr hen ffermdy _____
- b) Yr hen feudy _____
- c) Adeilad newydd _____

Sut mae hyn yn wahanol i'r cynllun oedd gan Richard ar ddechrau'r prosiect a pham?

9. Wrth wrando ar ail ran y sgwrs am y tro cyntaf, gwrandewch am yr enwau lleoedd canlynol gan roi ✓ pan fyddwch chi'n eu clywed (bydd rhai o'r enwau i'w clywed fwy nag unwaith, felly gallwch roi mwy nag un ✓):

Sylwch hefyd ar sut mae Richard yn dweud y gair "afalau".

	✓
Cymru	
Dyffryn Nantlle	
De Lloegr	
Henffordd (yr enw Saesneg glywch chi)	
Caerloyw (yr enw Saesneg glywch chi)	
Dyfnaint	
Bangor	

Gwrandewch ar y darn eto a thrafodwch pam mae Richard yn sôn am y lleoedd hyn wrth siarad am ddatblygiad y busnes.

10. Rhowch ✓ i ddangos pa rai o'r planhigion canlynol sydd wedi ffynnu ym Mhant Du a thrafodwch pam mae rhai mathau o blanhigion wedi ffynnu a rhai eraill wedi methu:

	Ffynnu (✓)
Gwinwydden Rondo	
Gwinwydden Regent	
Gwinwydden Bacchus	
Coed afalau seidr traddodiadol	
Coed afalau cynhenid Cymreig	

11. Rhowch ✓ i ddangos pa fathau o win sydd wedi cael eu cynhyrchu ym Mhant Du ym mhob un o'r blynyddoedd canlynol:

	2007	2010	2011	2012	bob blwyddyn ers 2012
Gwin Gwyn					
Gwin Coch					
Gwin Rhosliw					
Gwin Pefriog					

Siaradwch

Mae Pant Du yn un o nifer o fusnesau bach sy'n cynhyrchu diodydd alcoholaidd sydd wedi datblygu yng Nghymru yn ddiweddar.

- Dych chi'n gyfarwydd â'r busnesau hyn a'u cynnyrch? Oes rhai yn eich ardal chi?
- Dych chi'n yfed gwin/cwrw/seidr y cwmnïau hyn neu wedi rhoi cynnig ar rai ohonyn nhw?
- Dych chi'n ceisio prynu bwyd a diod lleol neu Gymreig yn rheolaidd? Ble dych chi'n eu prynu nhw? Oes digon ar gael ble dych chi'n siopa?
- Dych chi'n fodlon talu mwy am gynnyrch Cymreig neu leol?
- Ydy gweld y Gymraeg ar labeli yn eich denu chi i brynu cynnyrch?